Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd

Ionawr 2026

senedd.cymru

# 1. Cefndir

**1.** Cyflwynwyd y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd[1] (y Bil) i Dŷ'r Cyffredin ar 7 Mai 2025. Fe'i noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

**2.** Yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil fel y'i cyflwynwyd, nodir fel a ganlyn:

> *"The Victims and Courts (VAC) Bill will make provision about victims and about procedure connected to criminal justice and the administration of criminal justice so far as they relate to the prosecutorial function and sentencing."*[2]

**3.** Mae enw hir y Bil yn datgan ei ddiben fel a ganlyn:

> *"… make provision about the experience of victims within the criminal justice system; about the functions of the Commissioner for Victims and Witnesses; and about procedure and the administration of criminal justice."*

**4.** Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ar 27 Hydref 2025. Cafodd ei Ddarlleniad Cyntaf[3] yn Nhŷ'r Arglwyddi y diwrnod canlynol, ac, ar yr adeg y cytunwyd ar yr adroddiad hwn, roedd y Bil yn aros am ei Ail Ddarlleniad.[4]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**5.** Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae'n ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig (darpariaeth berthnasol).

**6.** Ar 20 Mai 2025, gosododd Jane Hutt AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip (yr Ysgrifennydd Cabinet), femorandwm cydsyniad deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r Bil (y Memorandwm) gerbron y Senedd.[5]

[1] Y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd, fel y'i cyflwynwyd (Bil 233) [Saesneg yn unig]
[2] Y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd, fel y'i cyflwynwyd (Bil 233), Nodiadau Esboniadol [Saesneg yn unig]
[3] Y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd, fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin (Bil Tŷ'r Arglwyddi 141) [Saesneg yn unig]
[4] Y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd, Cyfnodau [Saesneg yn unig]
[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd, 20 Mai 2025

**7.** Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm ar 9 Gorffennaf 2025[6] a chawsom ymateb gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2025[7].

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2)

**8.** Ar 20 Mai 2025, gosododd yr Ysgrifennydd Cabinet femorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 2) mewn cysylltiad â gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.[8]

**9.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2 erbyn 16 Ionawr 2026.[9]

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**10.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan ym Memorandwm Rhif 2 fod gwelliant NC14, sy'n ehangu cymal 3 o'r Bil (Cyfyngu ar gyfrifoldeb rhieni troseddwyr rhyw penodol), yn cynnwys darpariaeth berthnasol.[10]

**11.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet hefyd yn datgan, ar ôl adolygiad o'r gwelliannau a gyflwynwyd, fod darpariaethau eraill yng nghymal 3 o'r Bil yn gwneud darpariaeth berthnasol. Mae hi'n datgan bod cymal 3 o'r Bil yn gosod dyletswyddau amrywiol ar Awdurdodau Datganoledig Cymru.[11]

### Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

**12.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn datgan nad oedd Llywodraeth y DU yn ystyried bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymal 3 o'r Bil, pan ysgrifennodd Alex Davies-Jones AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros Ddioddefwyr a Threchu Trais yn erbyn Menywod a Merched, gyntaf at yr Ysgrifennydd Gwladol ar 7 Mai 2025.[12]

---

[6] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd, Gorffennaf 2025
[7] Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm, Awst 2025
[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2): Y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd, 20 Mai 2025
[9] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen i'w hystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Dioddefwyr a'r Llysoedd, Tachwedd 2025
[10] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 9 i 14
[11] Memorandwm Rhif 2, paragraff 15
[12] Memorandwm Rhif 2, paragraff 16

**13.** Mewn cysylltiad â gwelliant NC14, dywed yr Ysgrifennydd Cabinet fel a ganlyn:

> *"Ysgrifennodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ddioddefwyr a Threchu Trais yn erbyn Menywod a Merched, eto ar 21 Hydref 2025 i dynnu sylw at y gwelliannau i'w gwneud yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin. Roedd y llythyr hwn yn cyfeirio at welliant NC14, ynghyd ag asesiad Llywodraeth y DU fod angen LCM.*
>
> *Rwyf yn cytuno ag asesiad Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r gwelliant a restrir ym mharagraff 11 [o Femorandwm Rhif 2]. Maent o'r farn nad oes angen caniatâd mewn perthynas â darpariaeth a fydd ddim ond yn cael effaith fach iawn ar awdurdodau lleol ac sydd, yn eu barn nhw, yn addasiad bach i'r swyddogaethau presennol. Fodd bynnag, fy nadansoddiad o'r darpariaethau hynny yw eu bod yn gwneud darpariaeth sy'n ystyried materion datganoledig ac felly mae angen SLCM mewn perthynas â nhw."*[13]

## Goblygiadau ariannol

**14.** Yn ôl yr Ysgrifennydd Cabinet, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Bil "ar hyn o bryd".[14]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**15.** Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi ei rhesymau dros wneud darpariaeth i Gymru yn y Bil:

> *"Rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Bil gan y DU gan eu bod yn ymdrin â materion datganoledig yn ogystal â materion a gedwir yn ôl ac mae ein cynnwys yn y ddeddfwriaeth hon gan y DU yn ei gwneud yn bosibl i amcanion polisi gael eu cyflawni yn y modd mwyaf effeithiol.*[15]

[13] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 17 a 18
[14] Memorandwm Rhif 2, paragraff 21
[15] Memorandwm Rhif 2, paragraff 20

**16.** I gloi, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i gynnwys darpariaeth berthnasol yn y Bil.[16]

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**17.** Gwnaethom drafod Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 1 Rhagfyr 2025[17], a chytunwyd ar ein hadroddiad ar 8 Rhagfyr 2025[18].

## Ein barn ni

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**18.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r gwelliannau i'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2.

**19.** Rydym hefyd yn nodi safbwynt Llywodraeth y DU o ran cydsyniad.

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2, o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn unol â Rheol Sefydlog 29.

[16] Memorandwm Rhif 2, paragraff 22
[17] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 1 Rhagfyr 2025
[18] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 8 Rhagfyr 2025